Ydych chi'n cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Edrychwch arno yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




Rhifyn 371 (Cymru) – 29 Mai 2024

Y Comisiwn Etholiadol

## Etholiad cyffredinol Senedd y DU: nodyn atgoffa ynglŷn â chanllawiau a chymorth

Ymhellach at ein neges e-bost dyddiedig 22 Mai, ar ôl cael cadarnhad y bydd etholiad cyffredinol Senedd y DU yn cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf, roeddem am eich atgoffa am y canllawiau a'r cymorth sydd ar gael gan y Comisiwn.

**Canllawiau ac adnoddau**

Mae amserlen yr etholiad ar gael yma.

Mae ein canllawiau craidd i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ac ymgeiswyr ac asiantiaid hefyd ar gael ar ein gwefan.

Mae adnoddau ategol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ac ymgeiswyr ac asiantiaid hefyd ar gael a gellir eu gweld yn yr adrannau adnoddau yn y canllawiau perthnasol.

Yn ogystal, rydym yn cynhyrchu nodyn canllaw byr i dynnu sylw at rai ystyriaethau allweddol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol). Caiff hyn ei rannu ar wahân drwy e-bost.

## Archebu llawlyfrau i orsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym

Rydym bellach yn casglu archebion ar gyfer copïau caled o'r llawlyfrau i orsafoedd pleidleisio a'r canllawiau cyflym, sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, i'w defnyddio yn etholiad cyffredinol Senedd y DU

Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r ffurflen archeb ar-lein yw **canol nos dydd Sul 2 Mehefin.**

## Cynnwys

**Etholiad cyffredinol Senedd y DU: nodyn atgoffa ynglŷn â chanllawiau a chymorth**

Mae adnoddau ar gael ar ein gwefan ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ac ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys canllawiau ar gyfer paratoi etholiad annisgwyl.

**Llawlyfrau i orsafoedd pleidleisio a Chanllawiau Cyflym**

Ffurflen archeb a therfynau amser ar gyfer dosbarthu

**Arolwg etholiad cyffredinol Senedd y DU ar gyfer Swyddogion Canlyniadau**

Arolwg byr yn casglu gwybodaeth am reoli etholiadau.

**Etholiad cyffredinol Senedd y DU: y wybodaeth ddiweddaraf am enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau**

Gwybodaeth am enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau mewn perthynas ag etholiad cyffredinol Senedd y DU.

**Etholiad cyffredinol Senedd y DU: y wybodaeth ddiweddaraf o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd**

Trosolwg o ddwy ymgyrch y Comisiwn i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Noder na fydd modd i chi ddiwygio’r ffurflen archebu eich hun ar ôl i chi ei chyflwyno. Os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau i'ch archeb, cysyllltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Rydym yn disgwyl dechrau dosbarthu archebion o 17 Mehefin ymlaen a dylid cwblhau'r broses yr wythnos honno. Os nad ydych wedi cael eich archeb erbyn 25 Mehefin, cysyllltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Gellir lawrlwytho’r llawlyfr gorsaf bleidleisio oddi ar ein gwefan. Sylwch nad dyma'r fersiwn terfynol sy’n barod i'w hargraffu o'r llawlyfr gorsaf bleidleisio, ond fersiwn testun terfynol sydd ar gael i gefnogi gweinyddwyr wrth iddynt gynllunio eu hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio. Byddwn yn eich diweddaru mewn bwletin yn y dyfodol pan fydd y fersiwn sy'n barod i'w hargraffu yn cael ei chyhoeddi.

## Arolwg cyn etholiad cyffredinol Senedd y DU

Rydym wedi datblygu arolwg byr sy'n ceisio gwybodaeth am agweddau allweddol ar y ffordd y byddwch yn rheoli'r etholiad yn eich ardal. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg yw **dydd Mawrth 4 Mehefin**. Rydym wedi darparu rhestr o'r cwestiynau y gallwch eu defnyddio i gyfeirio atynt cyn i chi lenwi'r arolwg gan fod angen ei gwblhau mewn un sesiwn.

Rydym yn sylweddoli y daw hyn ar adeg brysur, felly rydym wedi ceisio ei wneud mor syml â phosibl i'w gwblhau. Mae'r wybodaeth rydych yn ei darparu yn hollbwysig er mwyn ein helpu i gael darlun clir o'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith ledled Prydain Fawr i gynnal etholiad cyffredinol Senedd y DU a bydd hefyd yn darparu ystadegau allweddol y gellir eu defnyddio gyda'r cyfryngau ac ymholwyr eraill mewn ffordd adweithiol a rhagweithiol.

## Cymorth gan y Comisiwn Etholiadol

Rydym yn sylweddoli bod hwn yn gyfnod heriol ac rydym yn ddiolchgar am yr holl waith caled y byddwch chi a'ch timau yn ei wneud unwaith eto er mwyn sicrhau etholiad sy'n cael ei gynnal yn effeithiol. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os gallwn roi rhagor o gymorth, cysyllltwch â thîm Cymru.

## Etholiad cyffredinol Senedd y DU: y wybodaeth ddiweddaraf am enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Mae ein canllawiau yn nodi'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar ei gyfer mewn perthynas â newid, dileu neu ychwanegu enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau.

Oherwydd y cyfnod byr tan yr etholiad, rydym yn cynghori pleidiau na allwn brosesu unrhyw geisiadau newydd a gyflwynir nawr i gofrestru plaid wleidyddol newydd, diwygio enw plaid, diwygio neu ychwanegu arwyddlun, neu ychwanegu disgrifiad mewn da bryd i'w ddefnyddio ar y papur pleidleisio yn yr etholiad.

Fodd bynnag, gallwn wneud rhai newidiadau o hyd os ydym eisoes wedi dechrau ymdrin â'r cais. Er y byddwn yn anelu at

**Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol.**

**Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau postio yn gyfredol.**

**Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data y DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.**

gwblhau diweddaru cofrestrau ar-lein o bleidiau gwleidyddol erbyn dydd Llun 3 Mehefin 2024, mae'n bosibl y bydd angen i ni eu diweddaru eto ar ôl y dyddiad hwnnw. Y dyddiad terfynol ar gyfer ychwanegu pleidiau newydd, neu enwau, disgrifiadau neu arwyddluniau newydd at y gofrestr yw dydd Mercher 5 Mehefin 2024.

Fel y gwnaethom o'r blaen, byddwn yn darparu rhestr o unrhyw newidiadau i enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau presennol pleidiau a wneir mewn da bryd i fod yn weithredol ar gyfer Etholiad cyffredinol Senedd y DU 2024 drwy'r Bwletin. Byddwn hefyd yn cynnwys rhestr o unrhyw bleidiau sydd wedi'u datgofrestru sy'n datgofrestru yn ystod y cyfnod hwn.

## Etholiad cyffredinol Senedd y DU: y wybodaeth ddiweddaraf o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd

Bydd y Comisiwn yn cynnal dwy ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd cyn etholiad cyffredinol Senedd y DU – un ynglŷn â chofrestru pleidleiswyr ac un i atgoffa pleidleiswyr i ddod ag ID ffotograffig a bod ID pleidleiswyr (y Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr) ar gael am ddim.
Dylai'r ymgyrch ynglŷn â chofrestru lansio, ar-lein yn unig i ddechrau, ddydd Iau 30 Mai neu tua'r adeg honno, a bydd yr ymgyrch ar ID yn lansio tua 24 awr yn ddiweddarach. Yna, bydd y ddwy ymgyrch yn ymddangos ar y teledu, ar y radio, y tu allan i'r cartref, ar deledu ar alwad, yn y sinema ac mewn hysbysebion yn ystod gemau. Byddwn yn darparu asedau o fewn y 10 diwrnod nesaf.

Byddwn hefyd yn darparu amrywiaeth o adnoddau argraffadwy a digidol y gall awdurdodau lleol, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a phartneriaid mewn cymdeithas sifil eu defnyddio i annog eu cynulleidfaoedd i gofrestru i bleidleisio a gwneud yn siŵr eu bod yn dod ag ID ffotograffig wrth bleidleisio'n bersonol. Bydd y rhain yn cynnwys: llyfryn ar ID pleidleiswyr a chanllaw i staff; posteri; graffigwaith ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a thestun cymdeithasol templed; testun ar gyfer gwefannau a chylchlythyrau; ac adnoddau i'r wasg.

Bydd yr adnoddau ar gael mewn nifer o ieithoedd cymunedol, ac mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys Braille a Hawdd ei Ddeall.

Caiff yr adnoddau hyn eu rhannu yn y rhifyn nesaf o'r Bwletin a byddant hefyd ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch partneriaid@comisiwnetholiadol.org.uk.

## Cymorth gan y Comisiwn Etholiadol

Gwerthfawrogwn fod hwn yn gyfnod heriol ac rydym yn ddiolchgar am yr holl waith caled yr ydych chi a'ch timau yn ei wneud unwaith eto i sicrhau bod yr etholiad yn cael ei gynnal yn dda. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os gallwn ddarparu unrhyw gymorth pellach, cysylltwch â thîm Cymru.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Llawr 3, Tŷ James William
9 Museum Place, Caerdydd
CF10 3BD
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2024